# *Ffurflen Gais* Cynnig Gofal Plant Cymru – Gwynedd, Môn a Conwy

Mae'r ffurflen hon i wneud cais am **hyd at** 20 awr o ofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth sydd yn ychwanegol at eich 10 awr o Ddarpariaeth Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar, ac y mae ar gael i blant teirblwydd a phedair gyda rhieni sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.

**Sylwch y gall rhai ysgolion / lleoliadau yng Nghonwy gynnig mwy na 10 awr Cyfnod Sylfaen bydd yr oriau ychwanegol hyn yn rhan o'r dyraniad 30 awr.**

Yn ystod 39 wythnos y tymor ysgol, bydd y cynnig yn talu am uchafswm o 20 awr o ofal plant yn ychwanegol at y 10 awr o Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar.

Yn ystod **hyd at 9 wythnos** o wyliau'r ysgol, bydd y cynnig yn talu am 30 awr o ofal plant.

(Nodwch fod 13 wythnos o wyliau yn ystod y flwyddyn ysgol)

Gall plant cymwys fanteisio ar y cynnig o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd tan y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair pan fyddant yn cychwyn ar addysg llawn amser.

Bydd yn rhaid i'r holl leoliadau gofal plant a ddewisir gael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

**Mae rhieni yn gymwys am y gofal plant a gyllidir gan y llywodraeth os yw o leiaf un rhiant yn byw yn Gwynedd, Môn, neu Conwy, ag**:

- Bod pob rhiant, neu gyplau sy'n cyd-fyw ar yr aelwyd yn gweithio ac yn ennill cyflog sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol;
  (Ni fydd rhieni'n gymwys os ydynt yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn-trothwy fesul rhiant yw hwn)
- Bod un rhiant yn gyflogedig a bod gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol seiliedig ar fudd-daliadau penodol a dderbynnir am ofalu;
- Bod y ddau riant yn gyflogedig, ond bod y naill riant a'r llall i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb rhieni, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu;
- Bod y ddau riant yn gyflogedig, ond bod un neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol;
- Bod un rhiant yn gyflogedig a bod un rhiant yn anabl neu'n analluog ar sail derbyn budd-daliadau penodol (weler tudalen nesaf);

Lle bydd un rhiant yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a'r rhiant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol, bydd y plentyn yn dal i allu manteisio ar y cynnig:

- Budd-dal analluogrwydd;
- Lwfans gofalwyr;
- Lwfans anabledd difrifol;
- Budd-dal analluogrwydd hirdymor;
- Lwfans cyflogaeth a chymorth (yn seiliedig ar incwm);
- Credydau yswiriant gwladol ar sail anallu i weithio neu allu cyfyngedig i weithio.

## Polisi Ailwirio

**Ar ôl i ceisiadau gael eu pasio, cysylltir â rhieni bob tymor er mwyn ailgyflwyno prawf incwm. Cysylltir â rhieni trwy e-bost a bydd methu â darparu'r dogfennau angenrheidiol yn arwain at gael eich tynnu o'r cynllun.**

**Rhieni a fyddai fel arfer wedi cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd incwm ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ond nad ydyn nhw nawr o ganlyniad i Covid-19**

Bydd rhieni sy'n gwneud cais am y Cynnig yn cael eu hystyried yn gymwys os gallant dystiolaethu y byddent fel arfer yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd enillion ar gyfer y Cynnig.
Bydd angen i chi dystiolaethu, o ganlyniad i Covid-19, bod eich enillion ym mis Ionawr / Chwefror 2020 wedi cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd incwm ar gyfer y Cynnig ond eich bod wedi gweld gostyngiad mewn incwm ers hynny.

Gweler y tabl isod. Mae hyn yn dangos incwm yn seiliedig ar isafswm cyflog yn gweithio 16 awr yr wythnos. Os yw'ch incwm yn is na'r cyfanswm ar gyfer eich oedran ni fyddwch yn gymwys.

| | FESUL AWR | WYTHNOSOL | MISOL | BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|
| 23+ | £9.50 | £152 | £658.67 | £7904 |
| 21-22 | £9.18 | £146.88 | £636.48 | £7637.76 |
| 18-20 | £6.83 | £109.28 | £473.55 | £5682.56 |
| O dan 18 | £4.81 | £76.96 | £333.49 | £4001.92 |
| Apprentis | £4.81 | £76.96 | £333.49 | £4001.92 |

*Sylwch: Nid yw gwneud cais yn gwarantu lle gofal plant. Nid yw'r cyllid yn cychwyn tan ar ôl i'ch cais gael ei basio, ac ar y dyddiad cychwyn a nodir ar eich llythyr cadarnhad.*

## Adran 1 – Manylion y Plentyn

| | |
|---|---|
| **Enw(au) Blaen Cyfreithiol:**<br>(fel ar y dystysgrif geni) | |
| **Enw Canol Cyfreithiol:**<br>(fel ar y dystysgrif geni) | |
| **Cyfenw Cyfreithiol:**<br>(fel ar y dystysgrif geni) | |
| **Dyddiad Geni:** | / / |
| **Rhyw:** | Gwryw ☐ Benyw ☐ |
| **Ethnigrwydd:** | |
| **Rhif y Dystysgrif Geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Côd Post:** | |
| **Beth yw prif iaith eich plentyn?** | Saesneg ☐ Cymraeg ☐ Arall ☐<br>Os arall, nodwch: |
| **Rwy'n credu bod problem iechyd, ymddygiad neu ddatblygiad gan fy mhlentyn ac y gallai fod angen gofal neu gymorth ychwanegol arno:** | Oes ☐ Nac Oes ☐ Ansicr ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **A yw eich plentyn ar hyn o bryd dan Orchymyn Gofal?** | Ydyw ☐ | Na ☐ |
| **A yw eich plentyn yn Derbyn Gofal? (yng Ngofal yr Awdurdod Lleol)** | Ydyw ☐ | Na ☐ |
| **Os ydyw, rhowch enw'r rhiant corfforaethol** | | |
| **A yw eich plentyn wedi Derbyn Gofal o'r blaen? (e.e. a yw'n cael ei faethu neu a gafodd ei faethu erioed?)** | Ydyw ☐ | Na ☐ |
| **Os ydyw, rhowch enw'r rhiant corfforaethol blaenorol** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **A yw'r plentyn yn efaill neu'n dripled etc. (un o enedigaeth luosog)?** | Ydyw ☐ | Na ☐ |

**Os ydyw, llenwch ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob plentyn.**

## Adran 2 - Cymhwyster y Rhiant / Gwarcheidwad

**Ticiwch yr holl osodiadau sy'n gymwys i chi.**

| | |
|---|---|
| **Mae pob rhiant ar fy aelwyd yn gweithio ac yn ennill cyflog sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol.** | ☐ |
| **Mae un rhiant yn gyflogedig ac y mae gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol ac mae'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig â'u cyfrifoldebau gofalu.** | ☐ |
| **Mae'r ddau riant yn gyflogedig, ond mae un neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb rhieni, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.** | ☐ |
| **Mae'r ddau riant yn gyflogedig, ond mae un neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol.** | ☐ |
| **Mae un rhiant yn gyflogedig ac un rhiant yn anabl neu'n analluog ar sail derbyn budd-daliadau penodol (weler rhestr ar tudalen 2).** | ☐ |
| **Mae o leiaf un rhiant yn byw yng Ngwynedd, Môn neu Conwy** | ☐ |

**Ni chaiff eich cais ei ystyried oni thiciwyd y blychau perthnasol.**

## Adran 3 – Manylion Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol

Mae angen cynnwys yr holl fanylion am rieni, neu gyplau sy'n cyd-fyw, ar yr aelwyd yn gywir ar y ffurflen gais hon.

***Os cyflwynir gwybodaeth anghywir, efallai y caiff y ddarpariaeth a gyllidwyd ei dynnu ymaith/yr hawlir y cyllid yn ôl.***

| | **Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol Un** | **Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol Dau (Os yn gymwys)** |
|---|---|---|
| **Enw cyntaf:** | | |
| **Cyfenw:** | | |
| **Beth yw eich dewis iaith i gyfathrebu ynddi? Os arall, nodwch** | Saesneg ☐ Cymraeg ☐ Arall ☐ Os arall, nodwch: | Saesneg ☐ Cymraeg ☐ Arall ☐ Os arall, nodwch: |
| **Perthynas i'r plentyn:** | | |
| **Dyddiad Geni:** | __ __ / __ __ / __ __ __ __ | __ __ / __ __ / __ __ __ __ |
| **Rhif Ffôn:** | | |
| **E-bost:** | | |
| **Cyfeiriad:** | | |
| **Côd Post:** | | |

***Sylwch, os nad chi yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am dalu Treth Cyngor am y cyfeiriad a roddir, y bydd angen i chi ddarparu prawf preswylio. Gall methu ag atodi'r manylion olygu oedi cyn prosesu'r ffurflen.***

| | Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol Un | | Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol Dau | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth yw eich grŵp ethnig?**<br><br>**Dewiswch un dewis sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau** | **Gwyn** | | **Gwyn** | |
| | Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig | ☐ | Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig | ☐ |
| | Gwyddelig | ☐ | Gwyddelig | ☐ |
| | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ |
| | Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch | ☐ | Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch | ☐ |
| | **Grwpiau ethnig Cymysg / Lluosog** | | **Grwpiau ethnig Cymysg / Lluosog** | |
| | Gwyn a Du Caribïaidd | ☐ | Gwyn a Du Caribïaidd | ☐ |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | ☐ | Gwyn a Du Affricanaidd | ☐ |
| | Gwyn ac Asiaidd | ☐ | Gwyn ac Asiaidd | ☐ |
| | Unrhyw gefndir ethnig Cymysg / Lluosog arall, disgrifiwch | ☐ | Unrhyw gefndir ethnig Cymysg / Lluosog arall, disgrifiwch | ☐ |
| | **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | | **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | |
| | Indiaidd | ☐ | Indiaidd | ☐ |
| | Pacistanaidd | ☐ | Pacistanaidd | ☐ |
| | Bangladeshaidd | ☐ | Bangladeshaidd | ☐ |
| | Tsineaidd | ☐ | Tsineaidd | ☐ |
| | Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifiwch | ☐ | Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifiwch | ☐ |
| | **Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig** | | **Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig** | |
| | Affricanaidd | ☐ | Affricanaidd | ☐ |
| | Caribïaidd | ☐ | Caribïaidd | ☐ |
| | Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall, disgrifiwch | ☐ | Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall, disgrifiwch | ☐ |
| | **Grŵp ethnig arall** | | **Grŵp ethnig arall** | |
| | Arabaidd | ☐ | Arabaidd | ☐ |
| | Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch | ☐ | Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch | ☐ |

| | Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol Un | | Rhiant / Gwarcheidwad Cyfreithiol Dau | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw'r cyflogwr:** | | | | |
| **Cyfeiriad y cyflogwr:** | | | | |
| **Rhif Ffôn:** | | | | |
| **E-bost:** | | | | |
| **Enw'r 2il Gyflogwr** (os yn gymwys)**:** | | | | |
| **Cyfeiriad yr 2il Gyflogwr** (os yn gymwys)**:** | | | | |
| **Rhif Ffôn:** | | | | |
| **E-bost:** | | | | |
| **Os ar absenoldeb Mamolaeth nodwch dyddiad cychwyn a gorffen** | | | | |
| **Faint o oriau yr wythnos (gan gynnwys goramser) fyddwch chi'n weithio fel arfer?** | | | | |
| **Cyfanswm cyflog blynyddol (Ticiwch un)** | Hyd at £5,199 | ☐ | Hyd at £5,199 | ☐ |
| | £5,200 a hyd at £10,399 | ☐ | £5,200 a hyd at £10,399 | ☐ |
| | £10,400 a hyd at £15,599 | ☐ | £10,400 a hyd at £15,599 | ☐ |
| | £15,600 a hyd at £20,799 | ☐ | £15,600 a hyd at £20,799 | ☐ |
| | £20,800 a hyd at £25,999 | ☐ | £20,800 a hyd at £25,999 | ☐ |
| | £26,000 a hyd at £31,199 | ☐ | £26,000 a hyd at £31,199 | ☐ |
| | £31,200 a hyd at £36,399 | ☐ | £31,200 a hyd at £36,399 | ☐ |
| | £36,400 a hyd at £51,999 | ☐ | £36,400 a hyd at £51,999 | ☐ |
| | £52,000 a throsodd | ☐ | £52,000 a throsodd | ☐ |

**Gall Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn gysylltu â'ch cyflogwr i wirio'r manylion uchod.**

## <u>Adran 4 – Manylion Darparwr Gofal Plant</u>

Gallwch gyrchu'r cynnig mewn uchafswm o ddau leoliad gofal plant cofrestredig yn ychwanegol at eich lleoliad Addysg Feithrinfa Cyfnod Sylfaen ar unrhyw un diwrnod. ***Rhowch fanylion y ddarpariaeth gofal plant y byddwch yn defnyddio - mae'n rhaid nodi'r union oriau rydych yn gwneud cais amdano -***
***uchafswm o 20 awr yn ystod tymor ysgol a 30 awr yn ystod gwyliau ysgol.***

**Enw a Chyfeiriad Darparwr Gofal Plant 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Darparwr: | | | |
| Cyfeiriad: | | | |
| Oriau o ofal plant y gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Tymor Ysgol | | Oriau o ofal plant y gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Gwyliau Ysgol | |
| Nifer o dyddiau o ofal plant gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Tymor Ysgol | | Nifer o dyddiau o ofal plant gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Gwyliau Ysgol | |
| Iaith y ddarpariaeth – Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog | | | |
| Dyddiad mae'r gofal plant yn cychwyn: | | | |
| Dyddiad y daw'r cytundeb i ben: | | | |

**Enw a Chyfeiriad Darparwr Gofal Plant 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Darparwr: | | | |
| Cyfeiriad: | | | |
| Oriau o ofal plant y gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Tymor Ysgol | | Oriau o ofal plant y gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Gwyliau Ysgol | |
| Nifer o dyddiau o ofal plant gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Tymor Ysgol | | Nifer o dyddiau o ofal plant gwnaed cais amdanynt yr wythnos: Gwyliau Ysgol | |
| Iaith y ddarpariaeth – Cymraeg, Saesneg, Dwyieithog | | | |
| Dyddiad mae'r gofal plant yn cychwyn: | | | |
| Dyddiad y daw'r cytundeb i ben: | | | |

**Adran 5 – Am y Plentyn yn adran 1**

**‘Rydym yn casglu’r wybodaeth yma er mwyn helpu i werthuso pa mor hygyrch yw’r cynnig gofal plant.**

**Ticiwch unrhyw rai sy’n berthnasol**

| | **Hoffwn gael:** | **Ar hyn o bryd rwy’n cael:** |
|---|---|---|
| Gofal plant cyfrwng Cymraeg – Cymraeg yw prif iaith dydd i ddydd y lleoliad.<br>(mae hyn yn cynnwys Cylchoedd Meithrin) | ☐ | ☐ |
| Gofal plant dwyieithog – mae’r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ochr yn ochr. | ☐ | ☐ |
| Lleoliad cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog – Saesneg yw iaith y mwyafrif o'r gweithgareddau, a’r prif iaith y cyfathrebu gyda’r holl blant a phobl ifanc. Darperir yr elfen Gymraeg drwy gyflwyno rhywfaint o Gymraeg i blant a phobl ifanc trwy ddefnyddio cyfarchion, caneuon, storïau a gemau. | ☐ | ☐ |
| Lleoliad cyfrwng Saesneg – Saesneg yw iaith dydd i ddydd y lleoliad | ☐ | ☐ |

| | |
|---|---|
| Mae fy mhlentyn wedi bod mewn Lleoliad Dechrau’n Deg cyn hyn. | Ydi ☐ Nac Ydi ☐ Ansicr ☐ |

| | |
|---|---|
| A ydych chi yn bwriadu i’ch plentyn mynychu, neu a yw eich plentyn ar hyn o bryd yn mynychu darpariaeth “Cyfnod Sylfaen Meithrinfa”, a elwir weithiau yn “hawl blynyddoedd cynnar”? Mae’r Cyfnod Sylfaen yn gwricwlwm datblygiadol ar gyfer plant tair i saith oed yng Nghymru. (Gallai eich plentyn fod yn cael mynediad i’r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen Meithrinfa trwy eich ysgol leol, Cylch Meithrin, Cylch Chwarae neu Feithrinfa).<br>Ar gyfer y Plentyn yn adran 1 (ticiwch bob un sy’n berthnasol); | |
| Mae fy mhlentyn yn mynychu yn barod am ……… awr bob wythnos | ☐ |
| Dwi’n bwriadu i’m mhlentyn fynychu Cyfnod Sylfaen Meithrin am …… awr bob wythnos (os gwybod) | ☐ |
| Nid wyf yn bwriadu i’m mhlentyn fynychu’r Cyfnod Sylfaen Meithrin. | ☐ |

| | |
|---|---|
| **Faint ydych yn ei wario'n fisol ar ofal plant ar hyn o bryd?** | **£** |
| **Pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi fforddio gofal plant ar hyn o bryd?** | Anodd iawn ☐<br>Eithaf anodd ☐<br>Dim yn hawdd nac anodd ☐<br>Eithaf hawdd ☐<br>Hawdd iawn ☐ |
| **Ar gyfartaledd, faint o oriau'r wythnos y mae teulu neu ffrindiau yn edrych ar ôl eich plentyn, yn ddi-dâl, ar hyn o bryd pan ydych chi'n gweithio?** | |
| **Ar gyfartaledd, faint o oriau yr wythnos o ofal plant, a delir amdano, ydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer eich plentyn pan ydych yn gweithio?** | |

**<u>Adran 6 – Dogfennau Ychwanegol</u>**

(Byddwn yn derbyn copïau wedi'u sganio, neu ffotograffau clir a dynnwyd gyda ffôn)
Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi cynnwys y dogfennau hyn i gefnogi fy nghais.
Bydd yr holl ddogfennau ychwanegol yn cael eu dinistrio ar ôl asesu eich cais.
Sylwch fod angen tystiolaeth arnom o'r holl incwm o waith, er enghraifft os ydych yn gyflogedig a hefyd yn cwblhau Ffurflen Hunanasesu flynyddol, bydd angen i chi anfon slipiau cyflog a'ch gwybodaeth hunanasesu.
Gall Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn ofyn i chi gyflwyno dogfennau gwreiddiol i gefnogi eich cais ar unrhyw adeg yn ystod y cynnig gofal plant hwn.

***(Sylwch, heb y dogfennau yma ni allwn brosesu eich cais.)***

**Rhiant 1**

| | |
|---|---|
| **Slipiau cyflog y tri mis diwethaf (os ydych yn gyflogedig) Os ydych yn gyflogedig o fewn y 3 mis diwethaf, anfonwch yr holl slipiau cyflog sydd ar gael a chopi o'ch cytundeb gwaith.** | ☐ |
| **Copi o Ffurflen Hunain asesiad 2020-2021 neu SA-302 (os ydych yn hunangyflogedig) Os ydych chi'n hunangyflogedig o fewn y blwyddyn diwethaf, anfonwch gopi o'r llythyr cofrestru hunangyflogaeth gan HMRC.** | ☐ |
| **Tystysgrif Geni'r Plentyn** | ☐ |
| **Ffurflen Talu Treth Cyngor <u>Diweddaraf</u>** | ☐ |

**Rhiant 2 (os yn berthnasol)**

| | |
|---|---|
| **Slipiau cyflog y tri mis diwethaf (os ydych yn gyflogedig) Os ydych yn gyflogedig o fewn y 3 mis diwethaf, anfonwch yr holl slipiau cyflog sydd ar gael a chopi o'ch cytundeb gwaith.** | ☐ |
| **Copi o Ffurflen Hunain asesiad 2020-2021 neu SA-302 (os ydych yn hunangyflogedig) Os ydych chi'n hunangyflogedig o fewn y blwyddyn diwethaf anfonwch gopi o'r llythyr cofrestru hunangyflogaeth gan HMRC.** | ☐ |
| **Os nad ydych yn gyflogedig anfonwch dystiolaeth o'r buddion a restrir ar dudalen 2.** | ☐ |

| 7. Datganiadau Rhieni |
|---|

**Yr wyf yn cadarnhau:**

- Trwy lofnodi'r ffurflen gais hon, yr wyf yn datgan fod yr holl wybodaeth a roddais yn gywir. Os gwelir bod unrhyw wybodaeth a roddais yn anghywir ac nad wyf yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y cynllun, deallaf y bydd fy mhlentyn yn colli ei le ar y cynllun yn syth ac y gellir camau pellach i adennill cost y gofal plant;
- Mae pob rhiant yn ein cartref yn gweithio ac yn ennill cyflog sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol.
- Y byddaf yn hysbysu Uned Gofal Plant Gwynedd os bydd fy amgylchiadau yn newid a all gael effaith ar fy nghymhwyster am y cynnig.
- Rwy'n ymrwymo i sicrhau fy mod yn cwblhau ail-wiried bob tymor lle bydd angen i mi anfon unrhyw ddogfennau y gofynnwyd amdanynt i gefnogi parhad cyllid.

**Yr wyf yn deall:**

- Trwy lofnodi'r ffurflen gais hon, yr wyf yn datgan fod yr holl wybodaeth a roddais yn gywir. Os gwelir bod unrhyw wybodaeth a roddais yn anghywir ac nad wyf yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y cynllun, deallaf y bydd fy mhlentyn yn colli ei le ar y cynllun yn syth ac y gellir camau pellach i adennill cost y gofal plant.
- Y bydd Uned Gofal Plant Gwynedd yn gwirio fy nogfennaeth i weld a wyf yn gymwys ac y gellir gofyn i mi gynhyrchu tystiolaeth bellach o'm cymhwyster. Os gwelir nad wyf yn gymwys, bydd y cynnig o ofal plant a gyllidir gan y llywodraeth yn cael ei dynnu'n ôl yn ffurfiol.
- Y bydd y wybodaeth a ddarperir gennyf yn cael ei ddefnyddio gan Uned Gofal Plant Gwynedd i gymharu fy nghais gyda'r meini prawf cymhwyster. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion dadansoddi ystadegol. Rhennir gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'i brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac unrhyw welliannau i'r Ddeddf honno.
- Fod gennyf hawl i uchafswm o 30 awr o ofal plant yr wythnos am ddim am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn i'm plentyn tair/pedair oed. Yn ystod tymor ysgol, bydd hyn yn 10 awr o Ddarpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen ac uchafswm o 20 awr o ofal plant a gyllidir gan y llywodraeth.
- Cyfyngir y llefydd gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth i rieni sydd yn byw o fewn Gwynedd, Môn a Conwy. Os nad wyf yn byw yn yr ardaloedd hyn, yna nid wyf yn gymwys am y cynnig.
- Gofynnir i mi ail-gadarnhau fy mod yn gymwys am y cynnig gofal plant unwaith bob tri mis / yn ystod pob tymor ysgol.
- Cyfrifoldeb y rhieni yw dod o hyd i ddarparwr gofal plant sydd yn cwrdd â'u hanghenion. Wrth lofnodi contract gyda darparwr, mae'r rhiant yn dod i gontract annibynnol, yn annibynnol ar Gynghorau Gwynedd a Môn.
- **Nid yw fy ngofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth ar gael hyd nes i hyn gael ei gadarnhau gan Uned Gofal Plant Gwynedd i mi mewn llythyr.**

**Yr wyf wedi darllen yr uchod a chytunaf â'r telerau.**

| | |
|---|---|
| **Enw'r rhiant:** | |
| **Llofnod y rhiant:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Deallaf:**
Os byddaf yn cymryd rhan yn y cynnig gofal plant a ariennir gan y llywodraeth, efallai y bydd ymchwilwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn cysylltu gyda mi ac y gallai unrhyw wybodaeth a gesglir gennyf gael ei defnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- i fesur i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol yn darparu eu gwasanaethau i chi a'ch plentyn;
- i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaethau hynny;
- i gefnogi ymchwil ehangach i'r gwasanaethau a ddarperir i chi a'ch plentyn;
- i gysylltu data o'r ffurflen hon i ffynonellau data eraill at ddibenion gwerthuso effaith y prosiect ar yr unigolion sy'n cymryd rhan.

Ni fydd y data a anfonir at Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio:

- i gymryd unrhyw gamau yn ymwneud â chi neu eich plentyn;
- i'ch adnabod chi neu eich plentyn mewn unrhyw adroddiadau.
-

Mae Deddf Diogelu Data yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Er nad oes bwriad iddynt gynnwys popeth, dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hynny:

- yr hawl i ofyn am weld a chael copïau o'r data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch (efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi fechan am hyn), er bod modd cadw peth gwybodaeth yn ol yn gyfreithlon weithiau;
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal data personol rhag cael eu prosesu os byddai gwneud hynny'n achosi niwed neu drallod;
- yr hawl i ofyn am gywiro gwybodaeth sy'n anghywir;
- yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data, asesu a yw prosesu eich data personol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf neu beidio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd data amdanoch chi (neu eich plentyn) yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu i atal eich data personol rhag cael eu prosesu, neu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb data personol neu eich bod yn dymuno ymarfer unrhyw hawliau sydd gennych o dan Ddeddf Diogelu Data, cysylltwch a ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

CP2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: TalkChildcare@llyw.cymru

Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ffonio 01625 545745.

Bydd Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn yn eich hysbysu am ganlyniad eich cais trwy e-bost ymhen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Bydd eich hawl am ofal plant a ariennir yn dechrau **ar ôl** i chi dderbyn eich llythyr cadarnhad.

**<u>Bydd oedi wrth brosesu eich cais os na fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen yn llawn neu os bydd dogfennau ychwanegol anghywir yn cael eu derbyn.</u>**

Dychwelwch y ffurflen gais wedi ei lenwi, gyda'r dogfennau hanfodol, drwy'r e-bost

**Nid yw'n bosib anfon ffurflen gais yn y post ar hyn o bryd**

*e-bost:* **<u>cynniggofalplant@gwynedd.llyw.cymru</u>**

*Ffôn:* **01248 352436**